## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn paratoi cyfryngau tyfu ar gyfer plannu yn unol â manylebau. Gallai'r cyfryngau tyfu fod yn bridd, compost neu gyfryngau synthetig (e.e. gwlân craig).

Mae'r safon yn berthnasol i baratoi cyfryngau tyfu â llaw neu â pheiriant.

Os ydych yn gweithio gyda pheiriannau dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Byddwch yn gweithio yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd i'w gyflawni
2.
gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas
3.
dewis, paratoi, defnyddio a chynnal a chadw'r offer sy'n ofynnol yn ddiogel ac yn gywir
4. cael a pharatoi'r meintiau gofynnol o ddeunyddiau ar gyfer eu hychwanegu at y cyfryngau tyfu yn unol â'r manylebau
5. ychwanegu deunyddiau wedi eu paratoi at y cyfryngau tyfu yn unol â'r manylebau
6. paratoi'r cyfryngau tyfu yn unol â'r manylebau
7. cynnal hylendid a bioddiogelwch wrth baratoi'r cyfryngau tyfu yn unol â'r cyfarwyddiadau
8. ymdrin â gwastraff yn ddiogel ac yn gywir yn unol â'r gofynion cyfreithiol a sefydliadol
9. storio a labelu'r cyfryngau tyfu yn unol â'r manylebau
10. cwblhau cofnodion fel sy'n ofynnol gan y sefydliad
11. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
sut i adnabod peryglon ac asesu risg sydd yn gysylltiedig â pharatoi cyfryngau tyfu
2.
y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3.
pwysigrwydd cwblhau'r gwaith o baratoi'r cyfryngau tyfu yn unol â'r manylebau
4.
yr offer sy'n ofynnol i baratoi'r cyfryngau tyfu a sut i baratoi, defnyddio, cynnal a chadw a storio'r rhain yn ddiogel ac yn gywir
5.
sut mae gofynion cnydau, a phlanhigion gwahanol ac amodau tyfu amrywiol yn effeithio ar wneuthuriad y cyfrwng tyfu
6. sut mae amodau amgylcheddol yn dylanwadu ar baratoi'r cyfryngau tyfu
7. y mathau o gyfryngau tyfu cynaliadwy
8. ffactorau allanol sy'n effeithio ar amseriad paratoi'r cyfryngau tyfu
9. nodweddion y cynhwysion gwahanol a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfryngau tyfu
10. y gweithdrefnau ar gyfer cael deunyddiau a mesur y cynhwysion ar gyfer y cyfryngau tyfu
11. dulliau gwahanol o ymgorffori cynhwysion i'r cyfryngau tyfu
12. dulliau gwahanol o baratoi'r cyfryngau tyfu
13. pwysigrwydd labelu'r cyfryngau tyfu'n gywir
14. amodau storio addas ar gyfer cyfryngau tyfu a ffactorau sy'n effeithio ar oes storio
15. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch wrth baratoi cyfryngau tyfu a'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
16. sut i drin, cludo a gwaredu gwastraff yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol
17. pwysigrwydd dilyn arfer gorau amgylcheddol ac ecolegol i helpu i leihau effaith eich gwaith ar yr amgylchedd
18. y cofnodion y mae angen eu cwblhau mewn perthynas â pharatoi cyfryngau tyfu
19. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Cwmpas/Ystod

A. adnabod a chael y deunyddiau canlynol:

1. gwrtaith
2. cynhwysion cyfryngau tyfu
3. cyflyrydd pridd

B. defnyddio’r dulliau canlynol ar gyfer paratoi’r cyfryngau tyfu:

1. cymysgu
2. amaethu

C. defnyddio’r deunyddiau canlynol:

1. gwrtaith
2. cyflyrydd pridd
3. cynhwysion cyfryngau tyfu

D. paratoi cyfryngau tyfu yn unol â’r gofynion plannu canlynol:

1. ansawdd
2. lefel gwlybaniaeth
3. trwch
4. dyfnder amaethu

E. gwaredu’r mathau canlynol o wastraff:

1. organig
2. anorganig

## Geirfa

**Cyfarwyddiadau:** llafar neu ysgrifenedig.

**Manylebau:** darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (GSS), canllawiau'r cynhyrchydd, polisïau sefydliadol

Paratoi cyfryngau tyfu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANH2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Garddwr, Gweithiwr Planhigfa, Gweithiwr Cynhyrchu Ffrwythau a Llysiau, Lluosogwr Planhigion |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | pridd; compost; gwlân craig |